Cabinet Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Cabinet

---

CYFARFOD CABINET RHANBARTHOL: 18 MEHEFIN 2018

Aelodau'r Cabinet Rhanbarthol a oedd yn bresennol:

Michelle Morris, Rheolwr Gyfarwyddwr	-	Cyngor Blaenau Gwent
Y Cyng. Huw David, Arweinydd	-	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Darren Mepham, Prif Weithredwr	-	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cyng. David Poole, Arweinydd	-	Cyngor Caerffili
Y Cyng. Huw Thomas, Arweinydd	-	Cyngor Caerdydd
Paul Orders, Prif Weithredwr	-	Cyngor Caerdydd
Y Cyng. Kevin O'Neill, Arweinydd	-	Cyngor Merthyr Tudful
Gareth Chapman, Prif Weithredwr	-	Cyngor Merthyr Tudful
Y Cyng. Peter Fox, Arweinydd	-	Cyngor Sir Fynwy
Paul Matthews, Prif Weithredwr	-	Cyngor Sir Fynwy
Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd	-	Cyngor Casnewydd
Will Godfrey, Prif Weithredwr	-	Cyngor Casnewydd
Y Cyng. Andrew Morgan, Arweinydd (Cadeirydd)	-	Cyngor Rhondda Cynon Taf
Chris Bradshaw, Prif Weithredwr	-	Cyngor Rhondda Cynon Taf
Y Cyng. Anthony Hunt, Arweinydd	-	Cyngor Torfaen
Alison Ward, Prif Weithredwr	-	Cyngor Torfaen
Y Cyng. Huw Thomas, Arweinydd	-	Cyngor Bro Morgannwg
Rob Thomas, Prif Weithredwr	-	Cyngor Bro Morgannwg

Swyddogion:

Christine Salter	-	Corff Atebol
Jenna Walters	-	Corff Atebol
Hrjinder Singh	-	Corff Atebol
David Marr	-	Cyngor Caerdydd
Alistair Milburn	-	Effective Communications
Liz Fitzgerald	-	Swyddfa Rheoli Rhaglen y Fargen Ddinesig

Ymddiheuriadau:

Y Cyng. Nigel Daniels, Arweinydd	-	Cyngor Blaenau Gwent
Y Cyng. Hywel Williams	-	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr

DRAFT V1

Christina Harrhy, Prif Weithredwr Dros Dro	-	Cyngor Caerffili
Y Cyng. Geraint Thomas	-	Cyngor Merthyr Tudful
Alyn Owen	-	Cyngor Merthyr Tudful
Y Cyng. Richard Clark	-	Cyngor Torfaen
Sheila Davies, Cyfarwyddwr Rhaglen y Fargen Ddinesig	-	Swyddfa Rheoli
Liz Weale	-	Corff Atebol

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cynghorydd Morgan gydweithwyr i'r cyfarfod a diolchodd i Newport Wafer Fab am letya'r cyfarfod ac fe nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. Ethol Cadeirydd

Enwebodd y Cynghorydd Fox y Cynghorydd Morgan i barhau i weithredu fel Cadeirydd, gan nodi bod dilyniant a chysondeb yn bwysig ar hyn o bryd, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Poole.

Nodwyd bod y Cytundeb Gweithio ar y Cyd yn amodi y byddai swydd y Cadeirydd yn cylchdroi ymhlith y cynghorau'n flynyddol. Cytunodd y cydweithwyr i hepgor yr amod hwn ar gyfer y flwyddyn ddinesig bresennol.

PENDERFYNWYD:

(i) y dylid ildio amod y Cytundeb Gweithio ar y Cyd ar gylchdroi'r Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn ddinesig bresennol;

(ii) y dylid ailbenodi'r Cynghorydd Morgan yn Gadeirydd;

3. Penodi'r Is-gadeiryddion

Cynigiodd y Cynghorydd Wilcox y dylai'r ddau is-gadeirydd presennol aros yn eu swyddi, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd David.

PENDERFYNWYD:

(i) y byddai'r ddau is-gadeirydd, sef y Cynghorydd Peter Fox a'r Cynghorydd Huw Thomas yn cael eu hailbenodi fel Is-gadeiryddion.

4. Datgan Buddiannau

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o fuddiant eu datgan ar ddechrau'r cyfarfod.

5. Cofnodion Drafft y Cabinet Rhanbarthol a gynhaliwyd ar 26ain Mawrth 2018

Derbyniwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26ain Mawrth 2018 fel cofnod cywir.

DRAFT V1

6. Adroddiad ar Adrodd ar Berfformiad Chwarter 4 i Lywodraethau Cymru a'r DU (Cofnod Rhif 31)

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Cyfarwyddwr Rhaglen y Fargen Ddinesig ynghylch Adrodd ar Berfformiad Chwarter 4 i Lywodraethau Cymru a'r DU, i'w ystyried a'i gymeradwyo.

PENDERFYNWYD: gan y Cabinet Rhanbarthol:

a) Nodwyd y cynnydd sylweddol cyffredinol, a chwblhad targedau allweddol y Cynllun Pontio 2018/17;

b) Cymeradwywyd Adroddiad ar Berfformiad Chwarter 4 ac Adolygiad Blynyddol 2017/18;

c) Awdurdodwyd Cyfarwyddwr Rhaglen Bargen Ddinesig Rhanbarth Prifddinas Caerdydd i gyflwyno'r adroddiad ar berfformiad Chwarter 4 yn ffurfiol, gan gynnwys gwybodaeth ategol i Lywodraethau'r DU a Chymru, a rhanddeiliaid eraill fel y bo angen, ar ran y Cabinet Rhanbarthol;

d) i gymeradwyo'r cynllun gwaith 2018/19 fel sail ar gyfer monitro perfformiad yn y flwyddyn i ddod ar y cyd â'r Cynllun Busnes Blynyddol.

7. Adroddiad ar y Alldro Terfynol 2017/18 (Cofnod Rhif 32)

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Cyfarwyddwr Rhaglen y Fargen Ddinesig a'r Swyddog Adran 151 ynghylch Alldro Terfynol 2017/18.

PENDERFYNWYD: gan y Cabinet Rhanbarthol:

a) Nodwyd y sefyllfa alldro derfynol yn erbyn Cyllideb Refeniw'r Cydbwyllgor ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2018, gyda'r tanwariant o -£41,846 ar gael i gefnogi'r gyllideb yn 2018/19;

b) Nodwyd y sefyllfa alldro derfynol yn erbyn cyllidebau'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2018, gyda'r tanwariant o -£586,150 yn erbyn y Gyllideb Brigdorri ar gael i'w thynnu i lawr mewn blynyddoedd i ddod er mwyn ategu'r gyllideb yn ystod y flwyddyn, yn amodol ar roi'r cymeradwyaethau angenrheidiol ar waith.

8. Adroddiad ar y Datganiad Cyfrifon heb eu Harchwilio 2017/18 (Cofnod Rhif 33)

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Swyddog Adran 151 y Fargen Ddinesig ynghylch y Datganiad o Gyfrifon heb eu Harchwilio 2017/18.

PENDERFYNWYD: gan y Cabinet Rhanbarthol:

DRAFT V1

a) i awdurdodi Swyddog Adran 151 y Cydbwyllgor i lofnodi Datganiad Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid ar dudalen 11 y Datganiad o Gyfrifon heb eu Harchwilio;

b) Nodwyd ar ôl cael cyfle i adolygu a darparu sylwadau, y caiff y Datganiad o Gyfrifon heb eu Harchwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2018 (gweler Atodiad 1):

i. ei ddarparu'n ffurfiol i Swyddfa Archwilio Cymru i'w galluogi i gychwyn eu harchwiliad o'r datganiadau;

ii. eu gwneud ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am gyfnod o bedair wythnos.

9. Adroddiad ar Gynllun Archwilio'r Fargen Ddinesig (Cofnod Rhif 34)

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwneud â Chynllun Archwilio'r Fargen Ddinesig.

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Morgan oherwydd ei fod yn nabod teulu Phil Pugh yn bersonol.

PENDERFYNWYD: Nododd y Cabinet Rhanbarthol gynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

Diolchodd y Cyng. Morgan i'w gyd-aelodau am fod yn bresennol a daeth y cyfarfod i ben.

DRAFT V1